

Cofnodion Cyngor Cymuned Llangernyw

Nos Fawrth Mawrth 20^{fed} 2018 yn Ffestri Pandy Tudur am 7.30yh

- 1) Croesawyd pawb gan Gwyn Williams (GW)
- 2) **Ymddiheuriadau**: Cyng. Garffild Lewis (GL), Einir Williams (EW), Clwyd Roberts (CR) Gwydion Jones (GJ)
- 3) **Presennol**: Elen H. Edwards (EHE), Diane Roberts (DR), R Emlyn Williams (REW), Gwynfor Davies (GD), Ann Vaughan (AV)
- 4) **Datgan cysylltiad**: Neb wedi datgan diddordeb.

5) **Cofnodion 6^{ed} o Chwefror 2018**: Dylai ddarllen “papurau cyfreithiol y toiledau wedi cyrraedd ac yn cadarnhau mai Menter Bro Cernyw Cyf. yw perchenog yr adeilad erbyn hyn. Biliau cyfreithiol angen eu talu (Steve Teale i dalu costau)”.

Yn dilyn y newid uchod nodwyd fod cofnodion Chwefror 6^{ed} 2018 yn gofnod cywir. Cynigwyd gan DR ac eilwyd gan REW.

6) **Materion yn codi**

- 6.1 DR yn dweud fod cwpan newydd y Sioe Arddio yn cael ei rhoi ar ran y Cyngor Cymuned ac nid er cof am Tecwyn Evans.
- 6.2 Dylai'r enw Cae Ffynnon fod yn Cefn Ffynnon ar y cais cynllunio 0/44654
- 6.3 Cofnodion mis Rhagfyr ddim yn electronig, mae angen edrych os oes gan rhywun rhai er mwyn eu hanfon i Arfon i'w rhoi ar y wê.
- 6.4 Dywedodd DR ei bod wedi cysylltu efo CCBC i ofyn am estyniad ar geisiadau cynllunio gan fod yna 4 o geisiadau cynllunio heb ddod o flaen y Cyngor sef: Bryn Gwylan, Wenallt, tir Pen y Bryn a Chapel Seilo.
- 6.5 Yn ôl Un Llais Cymru does yna ddim hawl i ddefnyddio asiantaeth i gyflogi clerics.
- 6.6 “Angen hefyd i'r Cyngor gymeradwyo yn ffurfiol y penderfyniad i roi grantiau i gymdeithasau a sefydliadau lleol. Penderfynwyd gwneud hyn yn y cyfarfod nesaf. Angen cario'r weithred yma i'r cyfarfod nesaf ar gyfer Cronfa Bro Cernyw.” Angen rhoi hwn ar agenda mis Ebrill.
- 6.7 Penderfynwyd rhoi rhôdd i Elwen Owen (EO) am weinyddu Cronfa Bro Cernyw. Angen rhoi hwn ar agenda mis Ebrill.

- 6.8** Mae angen gwybod os ydym yn gystadleuol gyda chyflogau a delir i Glercod Cynghorau Cymuned lleol eraill. Angen gofyn i EW roi ymateb i hwn yng nghyfarfod mis Ebrill.
- 6.9** GD angen gwybod os ydy EO fel cyn-glerc i fod i arwyddo sieciau efo'r Cynghorwyr. DR yn methu gwneud mantolen nes y bydd wedi cael gwybodaeth.
- 6.10** Cais ariannol gan Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Conwy 2018. GD am edrych faint roddwyd llynedd erbyn cyfarfod nesaf y cyngor ym mis Ebrill.
- 6.11** Mae 2 bris wedi cael ei dderbyn i a) sythu'r cerrig beddau a b) symud y pridd yng ngwaelod y fynwent gan Kevin Roberts. Mae REW wedi ei hysbysu ei fod wedi bod yn llwyddianus.
- 6.12** Ymgynghoriad diwydiedig ar Orchymyn Gwarchod Man Cyhoeddus - Rheoli Cŵn. DR eisiau rhoi gwybodaeth yn y safleoedd bwisiau am y dirwy o dan Rheolau'r Ffordd Fawr. Mae yn drosedd os oes gennych gi heb dennyn. Mae'r ddirwy yn codi o £75 i £100. Ceir mapiau yng Nghonwy yn dangos ble mae posibl mynd â chi yn gyfreithlon. Pasiwyd ein bod yn rhoi prif bwyntiau y ddogfen ymgynghorol yn y cylch lythyr nesaf i godi ymwybyddiaeth o'r broblem sydd yn yr ardal efo cŵn. Gofyn i'r Warden Cŵn am bampledi i'w rhannu yn yr ardal.
- 6.13** Dogfen Cynllun Iaith Rhif 61 a 70. Mae'r Gymraeg i fod yn gyntaf ar arwyddion a.y.b. EHE i ddod a gliniadur i Langernyw mis nesaf i ni gael ei drafod a llenwi'r ffurflen.
- 6.14** Blodau wedi tyfu drosodd yn Nhŷ'r Gôf yn Llangernyw. DR wedi dweud amdano yn barod. Twlc – twll yn y wal a defaid wedi bod yn mynd trwyddo. Gwrych yn Gwytherin. DR am wneud ymholiadau am y rhifau gwaith a gofyn beth sy'n digwydd ynglyn a'r pwyntiau yma.
- 7)** Mi fydd ffordd Waterloo ar gau 17^{eg} o Ebrill gan fod yna waith trydan yn mynd ymlaen.
- 8)** Cais cynllunio Craig y Onnen 0/44942. Nid oedd gwrthwynebiad i'r cais.
- 9)** Trefnu diolch i'r cyn-Glerc (EO), ei adael tan ddechrau mis Mai.
- 10)** Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Nid yw yn orfodol, mae'r £150 i annog rhywun ifanc i gael talu am warchod eu plant, neu i gael tâl am edrych ar ôl rhywun tra mae'r Cynghorydd yn y Cyngor. Mae yna gyfarfod ar 9^{fed} o Fai rhwng 10:30am a 12:00pm yng Nghanolfan Fusnes Cyffordd Llandudno ynglyn â'r mater yma.
- 11)** Cyflog y cyn-Glerc (EO). Angen cael trefn ar y P45. Angen gofyn i EO am gais am yr ôl daliad cyflog.

12) Dyrannu swyddogaeth. Mae REW, GW a GD yn ei chael yn annodd i fynd ar y wê ac felly yn anodd medru gweithredu efo rhai o'r swyddi. Nid yw GD wedi talu biliau mis diwethaf oherwydd hyn. Mae wedi cael rhif ffôn pawb oedd yn y cyfarfod heno ac yn bwriadu cael rhifau'r cynghorwyr eraill eto. Mae am dalu biliau mis Chwefror a Mawrth pan fydd wedi cael y llyfr sic gan EO.

13) Gohebiaeth

- 13.1** Meirion Owen (Tîm Llês Cymunedol Conwy) - gofyn iddo ddod i siarad i'r Cyngor ym mis Mai. AV am anfon e-bost iddo i drefnu.
- 13.2** Panel Annibynol Cymru a'r Gydabyddiaeth Ariannol – gweler 10) uchod.
- 13.3** Cadwch Gymru'n Daclus – mae EHE am yrru e-bost ymlaen am hyn. Mae yna ymgyrch gan Ferched y Wawr drwy Gymru i dacluso ein hardaloedd o sbwriel plastig. Penderfynwyd ein bod yn gwneud hyn ar y cyd efo cangen Merched y Wawr, Llangernyw a phenodi dyddiad ar gyfer yr ymgyrch yma.
- 13.4** Llywodraethu a Rheolaeth Ariannol mewn Cyngorau Lleol 2016-2017 – EHE am ei anfon ymlaen ar pdf.
- 13.5** Rheolau Diogelu Data – copi GDPR, ei roi ar agenda mis Mai a grŵp i edrych arno wedyn.
- 13.6** Canllaw i brif Gynghorau ar arolygon cymunedol – Cludiant Cymunedol – cael rhywbeth fel "O Ddrws i Ddrws" i helpu pobl lleol gael cludiant.
- 13.7** Ymgyngoriad ar Orchymyn Rheoli Cŵn Gwarchod Mannau Cyhoeddus - gweler 6.12 uchod.
- 13.8** Ymgyngoriad strategaethau toiledau lleol – wedi gofyn i Menter Bro Cernyw Cyf. i edrych ar hwn a rhoi sylwadau.
- 13.9** Claddu plant – mae yna reolau newydd wedi dod i rym ac mae angen i'r Pwyllgor Mynwentydd eu trafod. Rydym wedi cael ar ddeall y gellir cynnal tê claddu unrhyw bryd yng nghanol yr wythnos yng Nghanolfan Bro Cernyw.
- 13.10** Elan City. Llyfr Glasdon Local Councils.
- 13.11** Mae yna wê yn Ysgol Bro Cernyw rwan ac mae'n gyfleuster cymunedol i bawb.

14) Biliau

- Arfon Parry - £150. Mae Arfon Parry wedi cynnig hyfforddiant ar gyfer y safle wê.
- Pwyllgor Cymdeithasol Pandy Tudur am logi'r festri - £90.
- GD i ofalu am dalu biliau mis diwethaf.

15) Materion Lleol

- DR am yrru'r cwynion canlynol i CCBC a chael rhifau gwaith:
 - a) Tyllau yn y lôn rhwng groesffordd Bryn Gwyn a Wenlli.
 - b) Allt Hafodunos – dŵr yn rhedeg ar draws yn lle mynd i'r gwter.
 - c) Pen Isa efo gormod o waith adeg yr eira ac yn methu agor y lonydd yng Ngwytherin. Ddim yn cael caniatad gan Gyngor Conwy i'w hagor. O'r blaen roeddynt yn cael mynd allan i weithio yn y nos. Os oedd y ffordd yn cau roedd yn cael ei hagor bob 4 awr. Dim ond un aradr eira sydd yn yr ardal rwan lle roedd yna dair. Rhaid siarad efo Geraint Edwards (CCBC) ynglyn â hyn gan mai ef yw pennaeth yr adran neu Iwan Edwards. Gadael i Garffild wybod hefyd.
- Mae'r ffyrdd yma ac acw angen eu trwsio a'r biniau halen yn wag. REW i gwyno am hyn.
- Mae yna gar Golf du yn gyrru drwy bentref Llangernyw ond nid oes neb wedi cael ei rif.
- Arwydd 20 milltir yr awr drwy'r pentref. Mae Sioned Green (prifathrawes Ysgol Bro Cernyw) am ei godi ym mhwyllgor nesaf y Llywodraethwyr.
- Deallwn fod yr arian wedi dod i ben efo'r band llydan i Wytherin. Roedd Open Reach a BT wedi addo gorffen y gwaith.
- Mae angen gwybod faint o arian Cronfa Bro Cernyw sydd ar ôl i'w dalu i Fenter Bro Cernyw Cyf. Yn ogystal mae EHE am gysylltu efo Steve Teale (CCBC) ynglyn â thalu costau'r cyfreithwyr a gofyn am yr arian sy'n ddyledus o CCBC am y cyfnod 2016/17.

Pwyllgor nesaf: 25^{ain} o Ebrill yn Llangernyw am 7.30pm

Diweddwyd y cyfarfod am 10.00pm

Cofnodion gan Ann O. Vaughan

20^{fed} Mawrth 2018

Arwyddwyd:.....

Dyddiad.....

Eitemau i'w roi ar agenda mis Ebrill a Mai 2018

Agenda Mis Ebrill 2018

- 6.6 - Cyngor i gymeradwyo yn ffurfiol y penderfyniad i roi grantiau i gymdeithasau a sefydliadau lleol
- 6.8 - Einir i ymateb i gyflogau a delir i glercod.
- 6.13 - Cynllun Iaith EHE
- 9 - Trefnu noson i ddiolch i EO
- 10 - Tâl £150 i Gynghorwyr
- 6.7 - Rhodd Cronfa Bro Cernyw i EO am ei weinyddu
- 6.10 - Rhôdd i Eisteddfod Dyffryn Conwy
- Sgipiau
- Dau gynnig ar gyfer Un Llais i'r cyfarfod blynyddol - problemau recriwtio clercod, £150 tâl cynghorwyr, archwilwyr.
- Toiledau Llangernyw – tâl Cronfa Bro Cernyw ag Ymgynghoriad Strategaethau Toiledau Lleol.

Agenda Mis Mai 2018

- Cyfarfod blynyddol – dewis swyddogion
- Meirion Owen – Tîm Llês Cymunedol Conwy
- Diogelu data

=